

Gwerthusiad o'r Fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn Crynodeb

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Ionawr 2018, penododd Llywodraeth Cymru (LIC) OB3, Dateb, a Phobl a Gwaith i gyflawni gwerthusiad o'i menter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE).
- 1.2 Rhaglen Llywodraeth Cymru yw PaCE a'i nod yw mynd i'r afael â thlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy. Fe'i darperir mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a bwriedir iddo gydategu rhaglenni dan arweiniad awdurdodau lleol i gynorthwyo teuluoedd. Mae PaCE yn cael ei ariannu'n rhannol trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- 1.3 Nod PaCE yw darparu cymorth i rieni unigol sydd allan o waith sy'n ystyried taw gofal plant yw'r prif rwystr sy'n eu hatal rhag cyrchu cyfleoedd cyflogaeth a/neu hyfforddiant.
- 1.4 Y bwriad yw, gyda chymorth dwys gan gynghorwyr PaCE, y caiff rieni'r cymorth sydd ei hangen arnynt i gyrchu gofal plant a fydd yn eu galluogi i fanteisio ar opsiynau o ran hyfforddiant a chyflogaeth. Y bwriad hefyd yw i PaCE fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol cyfleoedd cyfartal a prif-ffrydio rhywiol; datblygu cynaliadwy; a threchgu tlodi a dieithrwch cymdeithasol.
- 1.5 Lanswyd PaCE ym mis Gorffennaf 2015 a bydd yn rhedeg tan Fawrth 2020. Dros gyfnod o bum mlynedd, disgwylir i PaCE gynorthwyo 8,278 o unigolion, ac mae ganddo gyfanswm cyllideb o ryw £13.5 miliwn.

2. Nodau a methodoleg y gwaith ymchwil

- 2.1 Gellir crynhoi tair nod y gwerthusiad fel a ganlyn:
 - ystyried a yw'r rhaglen yn cael ei gweithredu yn ôl y disgwyl
 - asesu effeithiolrwydd y rhaglen wrth helpu cyfranogwyr i gyflawni deilliannau cynaliadwy
 - asesu cywirdeb y Theori Newid sydd wrth wraidd y rhaglen.
- 2.2 Mae'r gwerthusiad hwn yn cael ei gyflawni mewn dwy ran rhwng Mawrth 2018 ac Ionawr 2020. Dyma grynodedd o'r adroddiad cyntaf sy'n ystyried a yw'r rhaglen yn cael ei chyflawni yn ôl y bwriad,

nodweddion y cyfranogwyr a natur y cymorth a ddarperir, yn ogystal â pherfformiad y rhaglen hyd yn hyn. Bydd adroddiad pellach yn archwilio effeithiau'r rhaglen, ac yn ystyried y gwerth am arian y mae PaCE yn ei gynnig.

3. Y Canfyddiadau allweddol

Y Cyd-destun Polisi

- 3.1 Mae PaCE yn cael ei weithredu yn erbyn cyd-destun polisi sy'n newid yn gyflym. Mae Cynllun Cyflogadwyedd 2018 Llywodraeth Cymru'n dadlau o blaid dull o fynd ati i ddarparu cymorth cyflogadwyedd sydd wedi ei deilwra at bob unigolyn, ac mae'n ymrwymo i ddatblygu atebion pwrpasol ar gyfer y bobl fwyaf anghenus. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn cyhoeddi'r bwriad i sefydlu Porth Cyngor Cyflogaeth a fydd yn gweithredu fel brocer ar gyfer amryw o ymyraethau cyflogaeth, ac mae rhaglen gyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, Cymru'n Gweithio, yn enwi PaCE yn benodol yn rhan o'i strwythur cymorth cyflogadwyedd newydd.
- 3.2 Yr un pryd, cyflwynir Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, a fydd yn darparu 30 awr o ddarpariaeth addysg gynnar a gofal plant ar gyfer plant tair i bedair oed. Ochr yn ochr â'r Cynnig Gofal Plant, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rhaglen grant cyfalaf i gynorthwyo integreiddiad a gwella gwasanaethau gofal plant ar draws Cymru.

Strwythurau'r Rhaglen

- 3.3 Y bwriad oedd y byddai staff PaCE yn cydweithio'n agos â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a sefydliadau allweddol eraill i hyrwyddo PaCE ac i estyn allan at y cyfranogwyr targed. Mae rheolwyr a chynghorwyr PaCE wedi ymdrechu i feithrin perthnasau â seilweithiau cymorth i deuluoedd yn eu hardaloedd, er bod cryfder y perthnasau hyn a graddfa'r rhyngweithio'n amrywio o un ardal awdurdod lleol i'r llall.
- 3.4 Mae PaCE yn gweithredu'n baralel â CaW ac mae cynghorwyr mewn llawer o ardaloedd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr o CaW. Mae PaCE yn gweithredu hefyd ochr yn ochr â nifer o brosiectau cyflogadwyedd rhanbarthol, a gall fod yn anodd i'r asiantaethau cyfeirio gadw i fyny â'r gwahanol raglenni sydd ar gael. Mae PaCE yn unigryw ymysg y rhaglenni cyflogadwyedd, fodd bynnag, o ran hi yw'r unrhyw raglen sy'n canolbwyntio ar ofal plant yn bennaf.
- 3.5 Lanswyd PaCE mewn ffordd gymharol dawel ac mae'r marchnata wedi bod yn gyfyngedig ers hynny, gan ddibynnu'n bennaf ar gysylltiadau cynghorwyr â phartneriaid a darpar-gleientiaid. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhaglen mor weladwy ag y gallai fod i bartneriaid neu ddarpar-gleientiaid.
- 3.6 Mae cynghorwyr PaCE yn gweithio o amrywiaeth o ganolfannau yn y gymuned, er nad oes cymaint o ddefnydd a ddisgwyliwyd wedi bod o gyfleusterau fel Teuluoedd yn Gyntaf neu'r canolfannau gwasanaethau integredig, gan greu teimlad o rwystredigaeth ymysg rhai nad yw PaCE wedi cael ei integreiddio cystal â'r disgwyl i'r dirwedd cymorth i deuluoedd. Fodd bynnag, maent yn parhau i ymchwilio i leoliadau newydd ar gyfer gwaith allgymorth a dulliau newydd o fynd ati.
- 3.7 Mae cynghorwyr yn defnyddio safleoedd y Ganolfan Byd Gwaith (JCP) yn helaeth. Mae yna fanteision i hyn o ran bod safleoedd JCP yn lleoliadau cyfleus i rai cleientiaid, eu bod yn llefydd hwylus i'r cynghorwyr gyrchu cronfeydd data DWP, eu bod yn caniatáu i'r cynghorwyr ryngweithio a hyrwyddo PaCE ymysg yr hyfforddwyr gwaith ac i fod ar gael yn y fan a'r lle i ddarpar-gleientiaid sy'n ymweld â safleoedd JCP. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod gorddibyniaeth ar eiddo JCP yn atal cynghorwyr rhag integreiddio cymaint ag y gallent i'r rhwydweithiau cymorth i deuluoedd, a rhag cyrraedd rhieni nad ydynt yn ymweld â JCP.

Proffil y Cyfranogwyr a Gysylltwyd

- 3.8 Mae llai o unigolion dros 25 oed na'r disgwyl wedi cysylltu â PaCE, er bod ychydig bach yn fwy o unigolion 16-24 oed wedi cysylltu. Mae cysylltiadau ar draws y ddau grŵp oedran wedi bod ychydig bach yn gryfach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Nwyrain Cymru.
- 3.9 Mae niferoedd y cyfranogwyr a gysylltwyd yn amrywio'n sylweddol o un ardal awdurdod lleol i'r nesaf. Byddai ein gwaith maes yn awgrymu y gellir priodoli hyn i nifer o ffactorau, fel: ansawdd perthnasau'r cynghorwyr â hyfforddwyr gwaith JCP; integreiddiad PaCE â seilweithiau cymorth i deuluoedd ehangach; y cydbwysedd rhwng yr amser y mae cynghorwyr yn ei dreulio mewn swyddfeydd JCP a lleoliadau yn y gymuned; trosiant staff; a'r ffordd y mae cynghorwyr unigol yn gweithio a'u gallu i gysylltu â phartneriaid a darpar-gyfranogwyr.
- 3.10 Er na bennwyd unrhyw dargedau cysylltu y tu hwnt i'r rhai ar gyfer pobl dros 25 oed, a'r rhai 16-24 oed, mae hi'n nodedig:
- bod y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr wedi bod yn fenywod
 - bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr wedi bod yn 20-34 oed
 - bod nifer anghyfartal o isel o gyfranogwyr yn dod o grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
 - bod mwyafrif mawr o'r cyfranogwyr yn dod o aelwydydd un oedolyn
 - bod gan gyfran uwch o'r cyfranogwyr na'r boblogaeth ar led salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
 - nad oes gan y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr unrhyw gymwysterau uwch lefel 2.
- 3.11 Mae siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli cyfran fwy o'r cyfranogwyr mewn rhai ardaloedd nac eraill.

Rhwystrau a Chymhelliant y Cyfranogwyr

- 3.12 Mae nifer o ffactorau cyd-destunol neu strwythurol yn dylanwadu ar gysylltiad rhieni â'r farchnad lafur. Mae'r rhain yn ymrannu'n dri phrif gategori: gofal plant; cymwysterau a sgiliau; a ffactorau fel diffyg cyfleoedd i gyflawni swyddi â chyflogau rhesymol o fewn pellter teithio rhesymol.
- 3.13 Mae'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â gofal plant yn cynnwys:
- anawsterau wrth ddod o hyd i ofal plant addas
 - y ffaith nad yw gofal plant ar gael yn gyfartal ar draws Cymru
 - anhawster dod o hyd i ofal plant y tu hwnt i oriau gwaith safonol (e.e. gyda'r nos neu ar benwythnosau)
 - anawsterau wrth ddod o hyd i ofal plant cyfrwng Cymraeg
 - anawsterau wrth ddod o hyd i ofal ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
 - diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am opsiynau gofal plant
 - y sialensiau logistaidd sydd ynghlwm wrth drefnu gofal plant i gyd-fynd ag ymrwymadau gwaith, yn arbennig lle bo mwy nag un plentyn neu blant ag anghenion ychwanegol
 - canfyddiad bod gofal plant yn ddrud a diffyg ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael
 - dewis unigolion i fod yn rhieni ar yr aelwyd er eu bod nhw'n credu y bydd hi'n bwysig iddynt ddychwelyd i'r gwaith pan fydd eu plant yn cyrraedd pwynt penodol.
- 3.14 Mae'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â chymwysterau/sgiliau yn cynnwys:
- diffyg cymwysterau neu gymwysterau diweddar perthnasol
 - diffyg sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith
 - diffyg profiad gwaith diweddar/hanes gwaith.
- 3.15 Mae cymhelliant y cyfranogwyr dros gysylltu â PaCE yn amrywio o un unigolyn i'r llall, ond mae gan lawer ohonynt wir ddymuniad i ddod o hyd i waith. Mae hi'n debyg taw'r pwynt pan fo plentyn ieuengaf yr unigolion yn troi'n dair ac yn bump oed yw'r sbardun i rai ymuno â PaCE, naill ai i baratoi ar gyfer gwaith neu i ddechrau chwilio am waith.

Siwmai'r Cyfranogwr

- 3.16 Cafodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr eu cyfeirio at PaCE gan JCP, ac roedd y pwynt pan oedd JCP am symud rhieni sengl a oedd yn hawlio Cymhorthdal Incwm i'r Lwfans Ceisio Gwaith yn drobwynt pwysig yn hynny o beth.
- 3.17 Mae'r holl gynghorwyr yn gweithio mewn ffyrdd ychydig bach yn wahanol i'w gilydd, er bod elfennau craidd y gwasanaeth a ddarperir gan bob cynghorydd yn cynnwys:
- Aseiad diagnostig: sy'n cynnwys cynghorwyr yn dilysu cymhwyster unigolion ac yn dod i adnabod y cyfranogwyr a deall eu hamgylchiadau, eu huchelgeisiau a'r ffactorau sy'n eu hatal rhag gweithio.
 - Cynllunio gweithredu: sy'n cynnwys archwilio a chytuno ar y ffordd ymlaen gyda'r cyfranogwyr.
 - Cyfrifiadau gwell eich byd: lle mae'r cynghorwyr yn dangos i'r cyfranogwyr faint yn well eu byd y byddent yn ariannol pe baent yn y gwaith, gan gymryd i ystyriaeth eu hincwm tebygol, yr effaith ar eu budd-daliadau a'r costau y byddent yn eu tynnu e.e. gofal plant.
 - Mentora a hyfforddi: sy'n cynnwys gweithio gyda'r cyfranogwyr i lunio CVs a chwilio am swyddi. Mae'n cynnwys annog a rhoi sicrwydd i'r cyfranogwyr hefyd mewn ffyrdd sy'n cael eu teilwra at anghenion pob unigolyn.
 - Cymorth yn y gwaith: sy'n cynnwys cynghorwyr yn helpu'r cyfranogwyr i ddelio â'r holl firocratiaeth a'r sialensiau emosiynol sydd ynghlwm wrth symud i mewn i waith.
- 3.18 Mae'r ymyraethau cyflogadwyedd sy'n cael eu hwyluso gan PaCE yn cynnwys:
- Hyfforddiant: sy'n amrywio o gyrsiau byr i ddarpariaeth sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig. Er bod y cyfranogwyr yn fodlon ar yr hyfforddiant a gawsant ar y cyfan, mae hi'n amlwg nad yw'r ddarpariaeth yr un mor hygyrch ym mhob rhan o Gymru, ac nid oedd rhai cyfranogwyr yn gallu cyrchu'r math neu'r lefel o hyfforddiant oedd ei angen arnynt.
 - Lleoliadau gwaith: mae isafswm o'r cyfranogwyr wedi cyflawni lleoliadau gwaith i ennill profiad a chael rhywbeth i'w nodi yn eu CV. Roedd y rhai a oedd wedi gwneud hynny'n gadarnhaol iawn am y profiad.
 - Y Gronfa Rwystrau: gwnaed defnydd cyfyngedig o'r gronfa rwystrau sydd ar gael i helpu i oresgyn y rhwystrau ariannol terfynol i waith.
 - Cymorth gofal plant: gwnaed llai o ddefnydd na'r disgwyl o'r cymorth sydd ar gael i dalu costau gofal plant hefyd, a hynny'n bennaf am fod rhieni wedi gallu dibynnu ar ffynonellau cymorth eraill neu am eu bod wedi gallu ffitio gweithgareddau PaCE o gwmpas oriau ysgol/meithrin.

Y Deilliannau sy'n dod i'r Amlwg

- 3.19 Mae dros draean o'r holl gyfranogwyr wedi symud ymlaen i waith, sy'n sylweddol uwch na'r 20 y cant a ddisgwyliwyd.
- 3.20 Mae yna wahaniaethau yn y gyfran o gyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith rhwng un ardal a'r llall, sy'n adlewyrchu pryd lansiyd y rhaglen mewn gwahanol rannau o Gymru, a'r amrywiadau yn y deilliannau swyddi a gynhyrchwyd gan gynghorwyr unigol.
- 3.21 Gwnaeth bron i hanner y cyfranogwyr a symudodd i mewn i swyddi hynny ar ôl bod yn gysylltiedig â PaCE am dri mis neu lai, a symudodd pumed rhan i mewn i swyddi ar ôl bod yn gysylltiedig â PaCE am rhwng tri a chwe mis.
- 3.22 Mae'r bobl sy'n symud i mewn i waith yn dueddol o fynd i swyddi lefel mynediad mewn dau gategori galwedigaethol: 'gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid' a 'gofal, hamdden a gwasanaethau eraill'.
- 3.23 Mae'r bobl hynny sy'n symud i mewn i waith yn dueddol o gael contractau parhaol, gyda'r rhan fwyaf yn gweithio tua 16 awr yr wythnos.
- 3.24 Ychydig o gyfranogwyr sydd wedi ennill cymwysterau wrth ymadael â PaCE.
- 3.25 Yn yr un modd, ychydig sydd wedi symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant wrth ymadael â PaCE.

3.26 Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod PaCE wedi cael effeithiau ehangach ar gyfranogwyr a'u teuluoedd y tu hwnt i alluogi iddynt symud i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant, neu ennill cymwysterau.

4. Argymhellion

4.1 Daw'r adroddiad i ben trwy gyflwyno 18 o argymhellion mewn perthynas â:

1. Pharhau i wella prosesau'r rhaglen.
2. Darparu diweddariadau chwe misol ar berfformiad lleol ar gyfer partneriaid yn yr awdurdodau lleol.
3. Cyfarfod â thimau gwasanaethau i deuluoedd yr awdurdod lleol yn flynyddol i archwilio sut y gellid integreiddio'r rhaglen yn well â'r gwasanaethau ehangach i deuluoedd.
4. Archwilio a allai fod yna gwmpas i fanteisio'n llawnach ar gyfleoedd allgymorth.
5. Sicrhau nad yw cyflwyniad pellach y Credyd Cynhwysol yn cyfaddawdu gallu'r cynghorwyr i gyrchu cofnodion y DWP ar gleientiaid.
6. Sicrhau y telir lwfans i gynghorwyr i dalu am y costau achlysurol y maent yn eu tynnu yn rhinwedd eu gwaith.
7. Cydweithio'n agos â'r rhai sydd ynghlwm wrth roi Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ar waith ac ymgysylltu â chydweithwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Porth Cyngor Cyflogaeth.
8. Diweddarau strategaeth gyfathrebu a marchnata'r rhaglen i:
 - o glustnodi a thargedu segmentau o rieni â negeseuon priodol
 - o sefydlu gwefan bwrpasol ar gyfer PaCE
 - o darparu porthiant o ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer sefydliadau partner.
9. Cyflawni adolygiad manwl o arferion mewn ardaloedd sy'n perfformio'n dda yn nhermau cysylltu cleientiaid er mwyn clustnodi arferion da y gellir eu rhannu â chynghorwyr.
10. Targedu hawlwrwyr Cymhorthdal Incwm â phant sy'n nesáu at dair a phump oed â negeseuon marchnata sydd wedi eu teilwra at eu sefyllfaoedd penodol nhw.
11. Cydgysylltu'n rhagweithiol â darparwyr dysgu lleol i helpu'r cyfranogwyr i ddod o hyd i hyfforddiant addas a chynnull grwpiau o gyfranogwyr fel y gall ddarparu'r hyfforddiant Llywodraeth Cymru gynnal cyrsiau hyfyw.
12. Ailddyrannu rhywfaint o'r gyllideb a bennwyd ar gyfer costau gofal plant i ariannu mwy o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant lefel 3 ac uwch.
13. Ystyried y posibilrwydd o ddyrannu cyllidebau hyfforddiant lleol.
14. Cofnodi gwaith a lleoliadau gwirfoddoli'n fanwl gywir ar y gronfa ddata o gyfranogwyr.
15. Arddel dull cyson o fynd ati i ddatgysylltu cyfranogwyr o PaCE.
16. Archwilio'r rhesymau dros wahaniaethau yng nghyfraddau trosi'r deilliannau swyddi rhwng ardaloedd.
17. Adolygu'r tebygolrwydd y bydd rhieni sydd wedi bod yn dilyn y rhaglen ers 12 mis neu ragor yn symud i mewn i gyflogaeth ac ystyried a allai ymyraethau eraill fod yn fwy addas ar eu cyfer.
18. Arbrofi gydag elfen o gymorth yn y gwaith dan derfyn amser mewn ardaloedd awdurdod lleol dethol.

Awduron yr Adroddiad: Einir Burrowes, Dateb a Heledd Bebb, OB3

Yr Adroddiad Llawn: OB3 (2018) Gwerthusiad o'r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflgaeth (PaCE): *Adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif GSR yr adroddiad 69/2018.

Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-parents-childcare-employment-project/?lang=cy>

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Launa Anderson

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Launa.Anderson@llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-78964-580-4